# CYNLLUN MARCIO TAG SAFON UWCH

**HAF 2022**

**SAFON UWCH**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT – UNED 3**
**1570N30-1**

© WJEC CBAC Ltd.

## RHAGARWEINIAD

Cafodd y cynllun marcio hwn ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Cafodd ei gwblhau ar ôl trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr a oedd yn ymwneud â'r asesu. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl i'r papur gael ei sefyll fel y gellid cyfeirio at yr ystod lawn o atebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Nod y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn yr un ffordd gan yr holl arholwyr.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir hefyd y gall athrawon, heb y fantais o gymryd rhan yng nghynhadledd yr arholwyr, fod â safbwyntiau gwahanol ynghylch rhai materion ynglŷn â manylion neu ddehongliad.

Ni all CBAC fod yn rhan o unrhyw drafodaeth na gohebiaeth yn ymwneud â'r cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**TAG SAFON UWCH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**UNED 3: SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL AR DDATBLYGIAD PLANT A PHOBL IFANC**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2022**

## Canllawiau i arholwyr

### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael marc o sero. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn. Mae *cynnwys 'Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir dyfarnu marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau a gaiff eu marcio yn seiliedig ar fandiau, mae'r cynlluniau marcio mewn dwy ran, sef y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni roddir unrhyw farciau.

Mewn TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae'r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau y gellir eu dyrannu i gwestiwn yn amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a'r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Asesir ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle bo cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, dyfernir marc am bob amcan asesu ac wedyn caiff y marciau hynny eu hadio at ei gilydd er mwyn rhoi marc cyffredinol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hynny'n golygu, ar gyfer ymateb pob ymgeisydd, bod marciau'n cael eu cronni am arddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau â'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

© WJEC CBAC Ltd.

| Adran A | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn** | | **Ateb** | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm marciau** |
| **1.** | *Darllenwch yr astudiaeth achos am Elen a Rhodri ac atebwch y cwestiynau isod.* | | | | | |
| | (a) | *Disgrifiwch* ***ddau*** *ffactor allai fod yn dylanwadu ar ymddygiad Elen.* | 6 [3,3] | | | 6 |
| | | Rhowch **hyd at 3 marc** am bob ffactor cywir yn yr astudiaeth achos a allai fod yn dylanwadu ar ymddygiad Elen.<br><br>**Rhowch 1 marc** am nodi ffactor allai fod yn dylanwadu ar ymddygiad Elen.<br><br>**Rhowch 2 farc** am ddisgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ffactor allai fod yn dylanwadu ar ymddygiad Elen.<br><br>**Rhowch 3 marc** am ddisgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ffactor allai fod yn dylanwadu ar ymddygiad Elen.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unrhyw ddau o'r canlynol:<br>• profiadau bywyd – genedigaeth brawd neu chwaer – aflonyddwch yn y tŷ, llai o sylw ar Elen, mwy o ymddygiad negyddol i geisio sylw.<br>• cyfnodau pontio – symud tŷ – symud yn aml i amgylchoedd newydd a symud oddi wrth ffrindiau, teimlo'n ynysig, gorfod setlo mewn ysgolion newydd, angen sicrwydd gan oedolion, mwy o ymddygiad negyddol<br>• teulu – arddulliau rhianta – rhieni yn gadael iddi gael ei ffordd ei hun oherwydd diffyg amser a phwysau cael plentyn ifancach<br>• gwahaniad/ymlyniad gwael – absenoldeb y fam enedigol/wedi'i gwahanu o'i mam enedigol, teimladau o gael ei gwrthod, mae angen iddi rannu sylw'r oedolion, rhannu'r cartref a'i heiddo â brawd neu chwaer arall. Teimlo'n ansicr o'i safle yn y teulu<br>• cymdeithasoli – symud sawl gwaith, cael ei gwahanu o'i ffrindiau a gorfod gwneud ffrindiau newydd, ymddygiad negyddol yn yr ysgol, diffyg teimlad o berthyn yn yr ysgol/cymuned<br>• ffrindiau – pwysau gan gyfoedion – grŵp o ffrindiau hŷn, pwysau i beidio â mynd i'r ysgol gan effeithio ar ei haddysg, gellid dylanwadu arni i ymddwyn mewn ffordd lle bydd yn wynebu risg, aros allan yn hwyr heb roi gwybod i'w rhieni<br>• profiadau niweidiol yn ystod plentyndod – ymlyniad gwael, cael ei gwahanu o'i mam enedigol, symud sawl gwaith (rhowch farciau am ysgariad)<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Gan ddefnyddio damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura, esboniwch sut gallai ymddygiad Elen effeithio ar ei brawd Rhodri.* | | 6 | | 6 |
| | | Dylai atebion gyfeirio at gymhwyso damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura:<br><br>Yn ôl damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura, mae plant yn dysgu drwy wylio eraill, ac mae plant yn aml yn dynwared ymddygiad oedolion a phlant hŷn e.e. mae plant yn dysgu ymddygiad gan fodelau rôl drwy arsylwi a dynwared. Mae'n bosibl y bydd Rhodri yn dynwared ymddygiad annymunol Elen. Gall modelau rôl ddylanwadu ar agweddau, credoau a phersonoliaeth plant, a gall hyn ddigwydd pan fyddant yn ifanc iawn.<br><br>Mae Bandura yn dadlau bod tair cydran ganolog i'r broses ddysgu: arsylwi, dynwared a modelu e.e. mae Elen yn fodel rôl negyddol i Rhodri o ran sut i reoli emosiynau fel dicter, tristwch neu rwystredigaeth. Mae Rhodri yn dal i ddysgu beth sy'n briodol o ran ymddygiad, a pha ymddygiad a ddisgwylir ganddo mewn cyd-destun cymdeithasol.<br><br>Bydd plant yn copïo ymddygiad treisgar neu ymosodol ar ôl iddynt arsylwi arno, a dyma yw ystyr ymddygiad wedi'i ddysgu e.e. dylai oedolion/plant hŷn fodelu ymddygiad priodol neu bydd plant ifanc yn dysgu ymddygiad amhriodol. Bydd yr awyrgylch negyddol yng nghartref y teulu oherwydd dadleuon ag Elen yn gwneud i Rhodri deimlo'n ansicr ac yn effeithio ar ei ymddygiad a'i lesiant emosiynol.<br><br>Bydd plant yn dynwared ac yn dysgu ymddygiad gan eraill. Dangosodd arbrawf Dol Bobo sut y bydd plant yn copïo ymddygiad cadarnhaol a negyddol o ganlyniad i arsylwi ar yr ymddygiad hwnnw mewn eraill e.e. gall modelau rôl effeithio ar ymddygiad plant mewn ffordd gadarnhaol a negyddol. Gall ymddygiad dadleuol Elen annog Rhodri i ymddwyn mewn ffordd debyg.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura yn esbonio sut gallai ymddygiad Elen effeithio ar Rhodri<br>• dealltwriaeth hyderus o sut mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura yn effeithio ar ymddygiad |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura yn esbonio sut gallai ymddygiad Elen effeithio ar Rhodri<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura yn effeithio ar ymddygiad. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura yn effeithio ar ymddygiad |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Esboniwch y strategaethau fyddai'n gallu cael eu defnyddio i hybu Rhodri i ddangos ymddygiad cadarnhaol.* | | 8 | | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Strategaethau perthnasol i hybu Rhodri i ddangos ymddygiad cadarnhaol.<br>• yn ddelfrydol, dylai'r lleoliad gofal/addysg a'r cartref gydweithio, er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn defnyddio dull cyson<br>• mae cyfathrebu da a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng y rhieni a'r ymarferwyr/athrawon yn bwysig er mwyn sicrhau y dilynir trefnau cyson<br>• amser tawel<br>• arferion adferol<br>• defnyddio ymyriadau, gan gynnwys:<br>  ○ dargyfeirio<br>  ○ tynnu sylw<br>• aros yn bwyllog<br>• trafodaethau â pherson allweddol<br>• modelu – e.e. rhieni/athrawon/ymarferwyr yn gweithredu fel modelau rôl<br>• gosod ffiniau – e.e. rheolau gartref/yn yr ysgol<br>• rheoli'r amgylchedd<br>• creu cardiau ymddygiad neu drefn<br>• parhau i arsylwi a deall yr hyn y mae'r plentyn yn ceisio ei ddweud go iawn drwy ei ymddygiad heriol<br><br>atgyfnerthu – e.e. canmoliaeth, gwobrau i Rhodri<br>• atgyfnerthu – e.e. canmoliaeth, gwobrau/cosbau, breintiau, cyfrifoldeb ac ymddiriedaeth i Elen<br>• creu amgylchedd ar gyfer ymddygiad da – e.e. dyddiau wedi'u strwythuro a'u cynllunio, trefn, amgylchedd dysgu heriol ac ysgogol<br><br>Dylai rhieni ac ymarferwyr Rhodri gytuno ar bolisi ymddygiad sy'n:<br>• cyfiawnhau disgwyliadau<br>• cynnwys mewnbwn gan Rhodri<br>• mynegi rheolau mewn ffordd gadarnhaol<br>• cynnwys rheolau am ymddygiadau grŵp<br>• hybu strategaethau gwydnwch<br><br>Rhaglen Defnyddio Iaith yn Gymdeithasol (SULP)<br><br>Gall ymatebion gyfeirio hefyd at strategaethau ffurfiol ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol:<br>• darparu amgylchedd gartref ac yn yr ysgol sy'n gadarnhaol ac yn gefnogol<br>• rhoi strategaethau ar waith i feithrin sgiliau ac atgyfnerthu ymddygiadau cadarnhaol<br>• rhoi strategaethau ar waith ar gyfer lleihau ymddygiad annymunol.<br>• rhoi trefniadau cwnsela ar waith i Elen<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut y gellid defnyddio'r strategaethau i hybu Rhodri i ddangos ymddygiad cadarnhaol<br>• dealltwriaeth hyderus o amrywiaeth o strategaethau y gellid eu cymhwyso i hybu Rhodri i ddangos ymddygiad cadarnhaol |
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut y gellid defnyddio'r strategaethau i hybu Rhodri i ddangos ymddygiad cadarnhaol<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o strategaethau y gellid eu cymhwyso i hybu Rhodri i ddangos ymddygiad cadarnhaol |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut y gellid defnyddio'r strategaethau i hybu Rhodri i ddangos ymddygiad cadarnhaol<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o strategaethau y gellid eu cymhwyso i hybu Rhodri i ddangos ymddygiad cadarnhaol |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o sut y gellid defnyddio o leiaf un strategaeth i hybu Rhodri i ddangos ymddygiad cadarnhaol<br>• dealltwriaeth brin o strategaethau y gellid eu cymhwyso i hybu Rhodri i ddangos ymddygiad cadarnhaol |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | *Er mwyn cefnogi ymddygiad plant a phobl ifanc, mae’n bwysig deall beth sy’n achosi ymddygiad heriol a’r ffactorau sy’n effeithio ar ymddygiad.* | | | | | |
| | (a) | *Ystyriwch sut mae damcaniaeth ymlyniad Bowlby (Bowlby’s theory of attachment) yn gallu esbonio rhywfaint o ymddygiad heriol Elen.* | | | 6 | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Sut mae'r ddamcaniaeth ymlyniad yn esbonio rhywfaint o ymddygiad heriol Elen.<br><br>Mae ymlyniad yn ddamcaniaeth esblygol bod plant wedi'u rhaglennu i ffurfio ymlyniadau o adeg eu geni i'w helpu i oroesi e.e. gall plant ifanc fel Elen sy'n cael eu gwahanu o'u prif ofalydd mewn ffordd drawmatig ddod yn ddig ac yn isel a datblygu cyflyrau fel atal dweud ac anawsterau dysgu. Mae trawma yn ystod plentyndod, fel cael eich gwahanu o'r prif ofalydd mamol, yn tarfu ar ddatblygiad arferol yr ymennydd<br><br>Bydd plentyn yn ffurfio ymlyniad ag un prif ffigwr ymlyniad; yr enw ar y cysyniad hwn yw monotropi, ac mae'r ymlyniad hwn yn bwysicach na phob ymlyniad arall e.e. mae ymlyniad sicr yn helpu plant i ddatblygu annibyniaeth oherwydd gallant fynd allan ac archwilio'r byd o fan cychwyn sicr. Efallai y bydd Elen yn teimlo'n ansicr ac y bydd ganddi ddiffyg hyder yn yr ysgol ac felly bydd yn datblygu patrymau ymddygiad negyddol. Yn ystod llencyndod, gall plant fel Elen ddatblygu problemau ag awdurdod, dangos ymddygiad lle byddant yn wynebu risg a gallant ddod yn isel eu hysbryd.<br><br>Mae tarfu ar yr ymlyniad rhwng baban a'i brif ofalydd yn arwain at broblemau gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol i'r plentyn. Yr enw ar hyn yw'r rhagdybiaeth amddifadedd mam e.e. tarfu ar yr ymlyniad rhwng Elen a'i mam pan oedd yn 4 oed gan arwain o bosibl at broblemau gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol – rhagdybiaeth amddifadedd mam Bowlby.<br><br>Dadleuodd Bowlby fod y berthynas â'r prif ofalydd yn llywio'r perthnasoedd cymdeithasol y bydd plentyn yn eu ffurfio yn y dyfodol e.e. mae ymlyniad emosiynol plentyn i brif ffigur mamol yn ystod 6 mlynedd gyntaf ei fywyd yn bwysig iawn, gall tarfu ar y datblygiad hwn achosi'r canlynol: anawsterau wrth ffurfio perthnasoedd, hunan-barch isel, diffyg cymhelliant i ddysgu a gweithio, cydweithredu ag eraill, ymdopi â straen a rheoli emosiynau, gan esbonio rhywfaint o ymddygiad negyddol Elen | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae ymlyniad yn dylanwadu ar y ffordd y bydd plant yn rhyngweithio ag eraill a'u teimladau amdanyn nhw eu hunain, eu hyder ynddyn nhw eu hunain ac eraill a'u holl berthnasoedd a'u rhyngweithiadau cymdeithasol gan gynnwys y rheini yn yr ysgol, gyda ffrindiau a'r teulu. Mae'n bosibl bod Elen yn ei chael hi'n anodd ffurfio perthnasoedd â'i chyfoedion gan arwain at sefyllfa lle y bydd yn ceisio gwneud ffrindiau â phlant hŷn.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos:<br>• ystyriaeth resymegol o sut mae damcaniaeth ymlyniad Bowlby yn esbonio ymddygiad heriol Elen<br>• ymgysylltiad hyderus â'r cysyniad o ymlyniad a sut mae'n esbonio rhywfaint o ymddygiad Elen |
| 2 | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos:<br>• ystyriaeth sicr ar y cyfan o sut mae damcaniaeth ymlyniad Bowlby yn esbonio ymddygiad heriol Elen<br>• ymgysylltiad syml â'r cysyniad o ymlyniad a sut mae'n esbonio rhywfaint o ymddygiad Elen |
| 1 | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:<br>• tystiolaeth brin o ran ystyried sut mae damcaniaeth ymlyniad Bowlby yn esbonio ymddygiad heriol Elen<br>• rhywfaint o ymgysylltiad â'r cysyniad o ymlyniad |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch beth yw pwrpas chwarae ac aseswch, gan ddefnyddio enghreifftiau, sut byddai chwarae llawn dychymyg (imaginative play) yn gallu effeithio ar ddatblygiad cymdeithasol a datblygiad ieithyddol/iaith Rhodri.* | 6 | | 8 | 14 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Pwrpas Chwarae<br><br>Pwrpas chwarae yw caniatáu i blant ddefnyddio eu creadigrwydd a datblygu eu dychymyg, deheurwydd, a'u cryfder corfforol, gwybyddol ac emosiynol ar yr un pryd. Trwy chwarae y bydd plant yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio yn y byd o'u cwmpas.<br><br>Enghreifftiau o chwarae llawn dychymyg a'u heffaith ar ddatblygiad cymdeithasol a datblygiad ieithyddol/iaith Rhodri:<br><br>Gweithgareddau chwarae rôl – gwisgo i fyny, newid cymeriad, acen a thôn, creu golygfa, dyfeisio propiau ac adnoddau yn fyrfyfyr, doliau, pypedau bys, pypedau cymeriad, theatr pypedau.<br><br>Cornel gartref, cegin, siop, ysbyty, milfeddygfa, caffi, gweithgareddau drama ac actio – copïo cymeriad, creu delwedd, dilyn stori, addasu adnoddau a phropiau<br>• cynyddu geirfa (dysgu geiriau newydd)<br>• copïo iaith pobl eraill<br>• lleisio meddyliau a theimladau drwy chwarae rôl<br>• siarad yn rhydd gydag emosiwn datblygu yn emosiynol: deall a mynegi eu teimladau drwy ail-greu profiadau penodol<br>• defnyddio eu dychymyg i fynegi eu barn a'u safbwyntiau<br>Gweithgareddau byd bach, fferm, sw, ysbyty.<br><br>Dawnsio a symud – mynegi teimladau drwy symudiadau dawns, datblygiad corfforol, symud i gerddoriaeth a sain.<br>Gweithgareddau awyr agored – pastai mwd, gwersylla, gerddi ffug, amser canu ac amser rhythm<br>Amser stori – dilyn stori, gwella cymeriadau drwy ddefnyddio propiau, gwrando ar gysyniadau stori a'u deall, deall yr ystyr<br>Amser cylch – trafod digwyddiadau a newyddion sydd wedi digwydd yn flaenorol, cyflwyno eu stori a'u gweledigaeth o ddigwyddiadau o'r gorffennol<br>Creu cerddoriaeth – defnyddio offerynnau cerddorol gwirioneddol neu offerynnau a wnaed â llaw i greu seiniau a rhythm.<br>• dewis geirfa sy'n addas at ddibenion/cyd-destunau penodol<br>• datblygu sgiliau iaith: ymarfer gwrando, edrych a siarad<br>• defnyddio tôn a llais i gyfathrebu<br>• siarad heb fod ofn teimlo cywilydd<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **4** | Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br><br>Dyfernir 6 marc fel yn achos Band 3. | **7-8 marc**<br>Asesiad ardderchog sy'n dangos:<br>• barn graff a gwybodus am effaith bosibl chwarae llawn dychymyg ar ddatblygiad cymdeithasol a datblygiad ieithyddol/iaith Rhodri<br>• amrywiaeth o enghreifftiau, ymgysylltiad hyderus a manwl ag egwyddorion chwarae llawn dychymyg a'u heffaith bosibl ar feysydd datblygiad cymdeithasol a datblygiad ieithyddol/iaith |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o bwrpas chwarae<br>• dealltwriaeth hyderus o chwarae llawn dychymyg | **5-6 marc**<br>Asesiad da sy'n dangos:<br>• barn resymegol am effaith bosibl chwarae llawn dychymyg ar ddatblygiad cymdeithasol a datblygiad ieithyddol/iaith Rhodri<br>• enghreifftiau, gydag ymgysylltiad trylwyr ag egwyddorion chwarae llawn dychymyg a'u heffaith bosibl ar feysydd datblygiad cymdeithasol a datblygiad ieithyddol/iaith |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o bwrpas chwarae<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o chwarae llawn dychymyg | **3-4 marc**<br>Asesiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• barn ddilys ar y cyfan am effaith bosibl chwarae llawn dychymyg ar ddatblygiad cymdeithasol a datblygiad ieithyddol/iaith Rhodri<br>• rhai enghreifftiau, gydag ymgysylltiad syml ag egwyddorion chwarae llawn dychymyg a'u heffaith bosibl ar feysydd datblygiad cymdeithasol a datblygiad ieithyddol/iaith |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o bwrpas chwarae<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o chwarae llawn dychymyg | **1-2 farc**<br>Asesiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• tystiolaeth brin o farn am effaith bosibl chwarae llawn dychymyg ar ddatblygiad cymdeithasol a datblygiad ieithyddol/iaith Rhodri<br>• enghreifftiau prin/dim enghreifftiau ac ymgysylltiad prin ag egwyddorion chwarae llawn dychymyg a/neu eu heffaith bosibl. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Adran B | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn** | | **Ateb** | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm marciau** |
| **3.** | (a) | *Disgrifiwch beth yw'r manteision cymdeithasol o ddeallusrwydd emosiynol (emotional intelligence) ar gyfer datblygiad plant a phobl ifanc.* | 6 | | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Ystyr deallusrwydd emosiynol yw'r gallu i ddeall a rheoli eich teimladau eich hun, ac i ddeall teimladau pobl eraill ac ymateb iddynt mewn ffordd addas. Mae deallusrwydd emosiynol yr un mor bwysig â deallusrwydd academaidd.<br><br>**Manteision Cymdeithasol Deallusrwydd Emosiynol**<br><br>• gall dysgu sgiliau deallusrwydd emosiynol helpu plant a phobl ifanc i ddod yn fwy ymwybodol o emosiynau pobl eraill<br>• mae bod yn fwy ymwybodol o'u hemosiynau, a gallu enwi eu hemosiynau, yn helpu plant a phobl ifanc i reoli'r emosiynau hynny ac ymdrin â nhw mewn ffordd fwy meddylgar a thosturiol.<br>• nid yw plant a phobl ifanc sy'n fwy ymwybodol o'u hemosiynau a'u teimladau yn bwlio eraill cymaint â'r plant hynny nad ydynt yn ymwybodol ohonynt.<br>• maent yn fwy tebygol o amddiffyn eu hunain ac eraill mewn sefyllfa lle byddant yn cael eu bwlio.<br>• gallant feithrin perthnasoedd cryfach ag eraill. Mae unigolion â pherthnasoedd cryfach yn eu bywyd yn gwneud yn well mewn agweddau eraill ar eu bywyd hefyd.<br>• mae sgiliau deallusrwydd emosiynol yn helpu plentyn neu berson ifanc i ddeall a rheoli emosiynau yn well, gan osgoi pyliau emosiynol a phroblemau ymddygiadol yn yr ysgol.<br>• llai o faterion iechyd meddwl fel iselder, gorbryder ac anhwylderau bwyta<br>• gwell sgiliau cyfathrebu e.e. gwrando gweithredol<br>• mae plant a phobl ifanc sy'n gallu enwi emosiynau pobl eraill â gwell empathi yn ogystal ag adnabod eu hemosiynau eu hunain yn dueddol o deimlo'n well amdanynt eu hunain ac yn dueddol o feddu ar well hunan-barch<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o fanteision cymdeithasol deallusrwydd emosiynol<br>• dealltwriaeth hyderus o ddeallusrwydd emosiynol |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o fanteision cymdeithasol deallusrwydd emosiynol<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ddeallusrwydd emosiynol |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o un fantais gymdeithasol deallusrwydd emosiynol o leiaf<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o ddeallusrwydd emosiynol |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch sut byddai anableddau dysgu yn gallu effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc.* | 6 | | | 6 |
| | | Anabledd dysgu yw gallu deallusol is ac anhawster wrth gyflawni gweithgareddau cyffredin – er enghraifft tasgau yn y cartref, cymdeithasu neu reoli arian – sy'n effeithio ar rywun gydol ei oes. Mae pobl ag anabledd dysgu yn tueddu i gymryd mwy o amser i ddysgu a gall fod angen cefnogaeth arnynt i ddatblygu sgiliau newydd, deall gwybodaeth gymhleth a rhyngweithio â phobl eraill.<br><br>Gall anableddau dysgu effeithio ar ddatblygiad oherwydd:<br>• anhawster o ran deall gwybodaeth newydd neu gymhleth<br>• anawsterau o ran dysgu sgiliau newydd<br>• anhawster o ran ymdopi'n annibynnol<br>• anhawster o ran cyfathrebu'n effeithiol<br><br>Mae plentyn ag anabledd dysgu yn ei chael hi'n anoddach dysgu, deall a gwneud pethau na phlant eraill o'r un oedran.<br>• bydd plentyn ag anabledd dysgu yn gyffredinol yn parhau i wneud cynnydd a dysgu drwy gydol ei blentyndod ond ar gyfradd arafach na phlant eraill<br>• mae'n debygol y bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar blentyn ag anabledd dysgu yn yr ysgol i'w helpu i ddysgu hyd eithaf ei allu<br>• mae'n bosibl y bydd rhieni neu weithwyr proffesiynol yn nodi anabledd dysgu ar oedran cynnar. Po gynharaf y caiff plentyn ddiagnosis, y gorau y bydd y gefnogaeth a gaiff a'r canlyniadau y bydd yn eu cyflawni<br>• gall plant gael anhawster sylweddol o ran eu ‘gweithrediad deallusol’ ar gyfer eu hoedran, fel rhesymu, datrys problemau, meddwl mewn ffordd haniaethol, a dysgu academaidd<br>• gall plant gael eu bwlio gan nad ydynt yn 'ffitio i mewn' a all effeithio ar eu hunan-barch neu eu hunan-werth<br>• gallant wynebu anawsterau cyfathrebu, ei chael hi'n anodd dysgu i siarad a gall fod ganddynt ddiffyg dealltwriaeth o leferydd o gymharu â phlant eraill, mae'n bosibl na fydd pobl yn eu deall a all achosi rhwystredigaeth<br>• mae'n bosibl na fydd gan blant y lefelau annibyniaeth a chyfrifoldeb ar gyfer eu hoedran, gan gynnwys anawsterau wrth allu bwydo neu wisgo eu hunain, neu fethu â rheoli arian yn annibynnol pan fyddant yn hŷn<br>• gall anawsterau dysgu effeithio ar bob agwedd ar fywyd plentyn, gan gynnwys y gallu i gyfathrebu ag eraill, cymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol neu fod yn annibynnol. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • gall anawsterau godi gartref, yn yr ysgol ac yn ystod amser hamdden<br>• mae graddau anableddau dysgu yn amrywio rhwng gwahanol unigolion, felly bydd effaith gymharol fach ar rai plant ond bydd plant eraill yn wynebu oedi neu anabledd mwy sylweddol<br>• Mae'n bwysig cael diagnosis o anabledd dysgu cyn gynted â phosibl er mwyn i'r plentyn allu cael y gefnogaeth gynnar briodol a helpu i'w alluogi i ddysgu a gwneud cynnydd. Therapi lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi<br>• gall plant ag anabledd dysgu wynebu anawsterau datblygiadol eraill hefyd, fel Anhwylder Sbectrwm Awtistig neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD).<br><br>Gall fod gan blant a phobl ifanc ag anabledd dysgu hefyd anghenion addysgol arbennig (AAA).<br>• Anhawster â geiriau ar lafar ac yn ysgrifenedig<br>• Anawsterau o ran deall cysyniadau haniaethol fel ffracsiynau<br>• Twf araf o ran geirfa, gan ei chael hi'n anodd yn aml i ddod o hyd i'r gair cywir<br>• Anhawster o ran odli geiriau<br>• Trafferth wrth ddysgu rhifau, yr wyddor, diwrnodau'r wythnos, lliwiau a siapiau<br>• Yn aflonydd iawn ac yn hawdd tynnu ei sylw<br>• Trafferth yn rhyngweithio â chyfoedion<br>• Anhawster o ran dilyn cyfarwyddiadau neu drefnau<br>• Mae'r sgiliau echddygol manwl yn datblygu'n araf<br>• Yn araf wrth gofio ffeithiau<br>• Yn araf wrth ddysgu sgiliau newydd, gan ddibynnu'n sylweddol ar y cof<br>• Yn fyrbwyll ac yn ei chael hi'n anodd cynllunio<br>• Gafael gwael ar bensil ac felly llawysgrifen wael<br>• Trafferth yn dysgu sut i ddweud yr amser<br>• Cydlyniad gwael ac yn dueddol o ymddangos fel nad yw'n ymwybodol o'i amgylchedd ffisegol<br>• Yn methu â chwblhau tasgau o fewn terfynau amser penodol<br>• Yn rhoi llythrennau am yn ôl neu'n drysu geiriau<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut gall anableddau dysgu effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc<br>• dealltwriaeth hyderus o sut gall anableddau dysgu effeithio ar ddatblygiad |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut gall anableddau dysgu effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut gall anableddau dysgu effeithio ar ddatblygiad |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gall anableddau dysgu effeithio ar ddatblygiad plant a/neu bobl ifanc<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut gall anableddau dysgu effeithio ar ddatblygiad |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Dadansoddwch sut mae chwarae creadigol yn gallu hybu datblygiad gwybyddol plentyn 2–4 oed.* | | | 8 | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Chwarae creadigol – pan fydd plant yn gwneud eu rheolau eu hunain wrth chwarae ac yn rhydd i ddefnyddio eu dychymyg i ddyfeisio gemau, actio straeon, dyfeisio straeon neu ganeuon. Mae chwarae creadigol yn anstrwythuredig ac yn hunangyfeiriedig, a dylai pob plentyn gael cyfleoedd i chwarae'n greadigol bob dydd.<br><br>Mae chwarae creadigol yn hybu datblygiad gwybyddol drwy wneud y canlynol:<br>• cynyddu geirfa (dysgu geiriau newydd)<br>• datblygu sgiliau datrys problemau<br>• annog ffordd o feddwl haniaethol.<br>• dewis geirfa sy'n addas at ddibenion/cyd-destunau penodol<br>• datblygu sgiliau iaith: ymarfer gwrando, edrych a siarad<br>• defnyddio eu dychymyg i fynegi eu barn a'u safbwyntiau<br>• gall plant roi cynnig ar syniadau newydd a ffyrdd newydd o feddwl<br>• datblygu sgiliau mathemateg drwy chwarae â siapiau ac arbrofi â mesur, cyfaint, didoli ac arian<br>• gwella'r gallu i ganolbwyntio<br>• dechrau deall cysyniadau gwyddonol fel gofod ac amser<br>• hybu dysgu gweithredol<br>• helpu plant i feddwl a gwneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch<br>• galluogi plant i fod yn greadigol, i ymchwilio i wahanol ddeunyddiau a'u harchwilio<br>• cynnig cyfleoedd i blant arbrofi a rhagfynegi canlyniadau<br>• sicrhau bod dysgu yn hwyl ac yn ddifyr<br>• annog rheoli risg a her<br>• annog ymchwilio'n annibynnol fel rhan o weithgareddau a bennwyd ymlaen llaw<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
| --- | --- |
| **4** | **7-8 marc**<br>Dadansoddiad ardderchog sy'n dangos:<br>• dehongliad craff a gwybodus o sut gall chwarae creadigol hybu datblygiad plentyn 2-4 oed<br>• ymgysylltiad hyderus a manwl â'r cysyniad o chwarae creadigol a sut gall hybu datblygiad gwybyddol. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o sut gall chwarae creadigol hybu datblygiad plentyn 2-4 oed<br>• ymgysylltiad trylwyr â'r cysyniad o chwarae creadigol a sut gall hybu datblygiad gwybyddol. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o ddehongliad o sut gall chwarae creadigol hybu datblygiad plentyn 2-4 oed<br>• ymgysylltiad syml â'r cysyniad o chwarae creadigol a sut gall hybu datblygiad gwybyddol. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dehongliad prin o sut gall chwarae creadigol hybu datblygiad plentyn 2-4 oed<br>• ymgysylltiad prin â'r cysyniad o chwarae creadigol |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.** | *Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar chwarae.* | | | | | |
| | (a) | *Esboniwch pa mor bwysig yw chwarae amgylcheddol ar gyfer datblygiad plant.* | | 6 | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn 3 i 7 oed yng Nghymru. Mae'n annog plant i ddefnyddio eu dychymyg ac i fod yn greadigol, gan wneud dysgu yn hwyl ac yn fwy effeithiol. Rhoddir cyfleoedd i blant archwilio'r byd o'u cwmpas a deall sut mae pethau'n gweithio drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol sy'n berthnasol i'w cam datblygiadol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys gweithgareddau ymarferol a phrofiadau dysgu gweithredol (dan do ac yn yr awyr agored).<br><br>• cynnig cyfleoedd a gweithgareddau er mwyn archwilio, ymchwilio a darganfod<br>• hybu cymhelliant ac ymgysylltiad mewn dysgu<br>• hybu awtonomi ac annibyniaeth<br>• annog cyfrifoldeb<br>• caniatáu i blant arbrofi â'u hamgylchedd a gofyn ac ateb cwestiynau.<br>• gallu cefnogi a hybu'r broses o ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• hybu dysgu gweithredol<br>• helpu plant i feddwl a gwneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch<br>• meithrin eu sgiliau ieithyddol a'u sgiliau cyfathrebu<br>• galluogi plant i fod yn greadigol, i ymchwilio i wahanol ddeunyddiau a'u harchwilio<br>• cynnig cyfleoedd i blant arbrofi a rhagfynegi canlyniadau<br>• sicrhau bod dysgu yn hwyl ac yn ddifyr<br>• annog rheoli risg a her<br>• annog ymchwilio'n annibynnol fel rhan o weithgareddau a bennwyd ymlaen llaw<br>• manteisio ar gyfleoedd yn yr amgylchedd dysgu awyr agored – dysgu yn yr awyr agored.<br>• caniatáu i blant archwilio risg a heriau cadarnhaol mewn amgylchedd diogel<br>• dysgu am natur a chysyniadau gwyddonol pwysig drwy astudio natur, planhigion, anifeiliaid, pryfed, cylchoedd oes a sut mae pethau'n tyfu.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae chwarae amgylcheddol yn cefnogi datblygiad plant yn y Cyfnod Sylfaen<br>• dealltwriaeth hyderus o bwysigrwydd chwarae amgylcheddol ar gyfer datblygiad plant |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut mae chwarae amgylcheddol yn cefnogi datblygiad plant yn y Cyfnod Sylfaen<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o bwysigrwydd chwarae amgylcheddol ar gyfer datblygiad plant |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae chwarae amgylcheddol yn cefnogi datblygiad plant yn y Cyfnod Sylfaen<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae amgylcheddol ar gyfer datblygiad plant |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch sut mae damcaniaeth wybyddol Piaget yn cefnogi ymarferwyr (practitioners) i asesu datblygiad plant.* | 8 | | | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Mae damcaniaeth Piaget yn cefnogi ymarferwyr i asesu datblygiad plant:<br>• roedd Piaget yn cydnabod pwysigrwydd arsylwi ar blant er mwyn asesu eu lefel datblygiadol er mwyn cynllunio tasgau a gweithgareddau sy'n briodol o ran oedran a chyfnod, ac mae hyn yn rhan bwysig o gynllunio sesiynau o fewn lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen.<br>• rhoddir llawer o gyfleoedd i blant ddysgu ac mae'r holl adnoddau sydd eu hangen arnynt ar gael iddynt a rhoddir gwaith iddynt sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u gallu<br>• mae deall damcaniaethau Piaget ar gyfer ymarfer yn y blynyddoedd cynnar yn fanteisiol mewn sawl ffordd. mae damcaniaeth Piaget yn seiliedig ar sut mae plant yn dysgu drwy chwarae a manteision dysgu drwy chwarae.<br>• mae damcaniaeth Piaget hefyd yn darparu sylfaen glir ar gyfer addysg plant<br>• bu Piaget yn ddylanwadol iawn wrth newid ein barn am sut mae plant yn gweld y byd ac ef oedd y seicolegydd cyntaf i arsylwi ar ddatblygiad gwybyddol mewn ffordd systematig ac ymchwilio iddo a datblygu damcaniaeth yn seiliedig ar gyfnodau datblygiad plant<br>• mae ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen yn arsylwi ar blant er mwyn nodi eu cyfnod datblygiad, nodi unrhyw achosion o oedi datblygiadol neu broblemau er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cael y gefnogaeth briodol ac y gellir ei atgyfeirio i asiantaethau allanol fel therapydd lleferydd/galwedigaethol<br>• defnyddir arsylwadau i lywio gwaith cynllunio ar gyfer gweithgareddau sy'n briodol o ran oedran a chyfnod ac i lywio proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen<br>• diben proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen yw asesu plant o fewn chwech wythnos i ymuno â'r Cyfnod Sylfaen, yn dair oed, er mwyn darparu asesiad 'llinell sylfaen'. Cynhelir asesiad o'r plentyn cyfan gan ddefnyddio meysydd datblygiadol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae damcaniaeth wybyddol Piaget yn cefnogi ymarferwyr i asesu datblygiad plant<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniad damcaniaeth wybyddol Piaget. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut mae damcaniaeth wybyddol Piaget yn cefnogi ymarferwyr i asesu datblygiad plant<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o gysyniad damcaniaeth wybyddol Piaget. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae damcaniaeth wybyddol Piaget yn cefnogi ymarferwyr i asesu datblygiad plant<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniad damcaniaeth wybyddol Piaget. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o sut mae damcaniaeth wybyddol Piaget yn cefnogi ymarferwyr i asesu datblygiad plant<br>• dealltwriaeth brin o gysyniadau. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Trafodwch sut mae gweithwyr chwarae (playworkers) yn defnyddio gwaith chwarae i gefnogi datblygiad cyfannol plant.* | | | 8 | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>Mae gweithwyr chwarae yn cefnogi datblygiad cyfannol plant drwy:<br><br>Mae gweithwyr chwarae cymwysedig a medrus wedi'u hyfforddi i sicrhau bod anghenion chwarae plant yn rhan greiddiol o'u gwaith mewn amrywiaeth o leoliadau, gan wella amrywiaeth y profiadau chwarae ac ansawdd y profiadau hynny i bob plentyn. Mae gwaith chwarae yn faes proffesiynol newydd â gweithlu cymwysedig a chynyddol gydnabyddedig. Mae gwaith chwarae yn cynnig gwasanaethau sy'n cyflwyno cyfleoedd i blant chwarae a chael y rhyddid i ddewis beth maent am ei wneud.<br><br>Gellir diffinio gwaith chwarae fel y broses o greu a chynnal mannau i blant chwarae. Mae'n broffesiwn medrus sy'n cyfoethogi ac yn gwella chwarae plant. Mae damcaniaeth ac ymarfer gwaith chwarae yn nodi yn ddelfrydol y dylai chwarae plant gynnwys dewisiadau rhydd, o dan gyfarwyddyd personol a chymhelliant annatod, ac y caiff gallu plant a phobl ifanc i ddatblygu'n gadarnhaol ei wella os byddant yn cael mynediad i'r amrywiaeth ehangaf o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae.<br><br>Mae datblygiad cyfannol yn ddull dysgu sy'n pwysleisio pwysigrwydd llesiant corfforol, emosiynol a seicolegol plant, yn enwedig yn ystod plentyndod cynnar.<br><br>Gall trafodaeth ymgeiswyr o sut gall gweithwyr chwarae a gwaith chwarae gefnogi datblygiad plant gynnwys cyfeiriad at y gweithgareddau canlynol:<br>• mae gwaith chwarae'n cyfoethogi ac yn gwella'r ddarpariaeth chwarae i blant, ac mae gweithwyr chwarae'n ymarferwyr medrus sy'n cefnogi ac yn hwyluso chwarae er mwyn chwarae, yn hytrach nag er mwyn cyflawni canlyniadau addysgol penodol<br>• mae gwaith chwarae yn caniatáu i blant ddilyn eu diddordebau a datblygu'r cymhelliant i ddysgu, archwilio a darganfod<br>• mae gwaith chwarae yn ymwneud â hwyl, rhyddid a hyblygrwydd<br>• mae gwaith chwarae yn ddull o weithio gyda phlant lle mae'r plant yn pennu ac yn rheoli cynnwys a bwriad eu chwarae<br>• caiff profiadau chwarae plant eu cyfoethogi gan weithwyr chwarae medrus sy'n gallu troi mannau ffisegol yn fannau o gyfle, dychymyg a pherthyn | | | | |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • mae gweithwyr chwarae yn galluogi plant ei ehangu eu chwarae eu hunain ac maent yn diogelu ac yn gwella'r man chwarae er mwyn sicrhau ei fod yn amgylchedd chwarae cyfoethog.<br>• mae gweithwyr chwarae yn sicrhau bod y man chwarae yn gynhwysol – gan helpu pob plentyn i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael yn eu ffordd eu hunain.<br>• mae gweithwyr chwarae yn gweld plant a phobl ifanc fel unigolion cymwys. Maent yn deall yr angen i blant ddod ar draws ansicrwydd a her a chreu ansicrwydd a her fel rhan o'u chwarae.<br>• nid yw gweithwyr chwarae yn cyfarwyddo nac yn trefnu chwarae, maent wedi'u hyfforddi i benderfynu pryd y dylid ymyrryd neu a ddylid ymyrryd<br>• mae gwaith chwarae yn cefnogi ac yn hybu chwarae plant a phroses chwarae drwy greu amgylcheddau hyblyg y gall plant eu haddasu i ddiwallu anghenion eu chwarae a'u dysgu<br>• mae'r man chwarae'n cynnig amgylchedd cyfoethog â llawer o brofiadau chwarae o ansawdd da i blant<br>• mae gweithwyr chwarae yno i hwyluso chwarae'r plant, ond nid i'w arwain na'i gyfeirio<br>• bydd gweithwyr chwarae yn cynllunio amgylchedd â chyfoeth o gyfleoedd chwarae er mwyn galluogi plant i chwarae yn y ffordd briodol, a dim ond pan fydd angen y byddant yn ymyrryd. Mae'r ffocws ar y chwarae ei hun yn hytrach na'r canlyniad<br>• bydd yr ymarferwr yn arsylwi ar y plant yn chwarae ac yn myfyrio ar yr arsylwadau hynny.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Trafodaeth ardderchog sy'n dangos:<br>• barn graff a gwybodus am sut mae gweithwyr chwarae yn defnyddio gwaith chwarae i gefnogi datblygiad cyfannol plant<br>• ymgysylltiad hyderus a manwl ag egwyddorion gwaith chwarae wrth gefnogi datblygiad plant. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos:<br>• barn resymegol am sut mae gweithwyr chwarae yn defnyddio gwaith chwarae i gefnogi datblygiad cyfannol plant<br>• ymgysylltiad trylwyr ag egwyddorion gwaith chwarae wrth gefnogi datblygiad plant. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos:<br>• barn ddilys ar y cyfan am sut mae gweithwyr chwarae yn defnyddio gwaith chwarae i gefnogi datblygiad cyfannol plant<br>• ymgysylltiad syml ag egwyddorion gwaith chwarae wrth gefnogi datblygiad plant. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Trafodaeth gyfyngedig sy'n dangos:<br>• tystiolaeth gyfyngedig o sut mae gweithwyr chwarae yn defnyddio gwaith chwarae i gefnogi datblygiad cyfannol plant<br>• ymgysylltiad prin ag egwyddorion gwaith chwarae wrth gefnogi datblygiad plant. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **5.** | *Mae Cari yn 4 oed. Mae hi wedi bod yn mynd i'r feithrinfa, a bydd hi'n dechrau yn yr ysgol yn llawn-amser ym mis Medi.*<br><br>*Mae Beth, gweithiwr allweddol Cari, yn pryderu bod Cari wedi mynd yn llai brwdfrydig (enthusiastic) ac yn dangos llai o ddiddordeb mewn chwarae. Mae hi hefyd yn pryderu bod Cari wedi mynd yn encilgar (withdrawn) ac yn ymddangos fel ei bod hi wedi diflasu. Mae Beth wedi bod yn gwneud arsylwadau, ac mae hi'n meddwl bod hyn oherwydd bod Cari yn barod i symud ymlaen yn ei datblygiad a bod angen gweithgareddau mwy heriol arni. Mae Beth wedi cofnodi hyn yng Nghynllun Datblygu Unigol Cari.*<br><br>*Mae Beth wedi rhoi Cari mewn grŵp bach gyda phlant ifancach na hi i fod yn 'diwtor cyfoedion (peer tutor)'.* | | | | | |
| | | *Disgrifiwch beth yw rôl gweithwyr allweddol mewn lleoliad blynyddoedd cynnar, a dadansoddwch sut mae ymddygiad a datblygiad Cari yn elwa (benefit) o strategaethau Beth.* | 8 | | 10 | 18 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Rôl gweithwyr allweddol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar:<br>• mae plant yn ffynnu drwy berthnasoedd cariadus a diogel, a ddaw gan y rhieni fel arfer, ond gall gweithiwr allweddol ddarparu'r berthynas hon hefyd<br>• byddai'r gweithiwr allweddol yn aelod penodedig o'r staff sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt i rieni/gofalwyr a'r unigolyn hwn fydd yn meithrin perthnasoedd â'r plentyn a'r rhieni/gofalwyr<br>• bydd y gweithiwr allweddol yn cyfarch y plentyn ar ddechrau sesiwn ac yn cefnogi'r rhiant a'r plentyn wrth iddynt adael, er mwyn darparu cyswllt rhwng y lleoliad a'r cartref<br>• bydd y gweithiwr allweddol yn ymateb i deimladau ac ymddygiad y plentyn mewn ffordd sensitif, gan fodloni anghenion emosiynol drwy roi sicrwydd a chefnogi llesiant y plentyn<br>• bydd y gweithiwr allweddol yn cadw cofnodion dyddiol o ddatblygiad a gofal dyddiol a gall rannu'r cofnodion hyn â rhieni'r plentyn<br><br>Diben arsylwadau gweithwyr allweddol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar:<br>• mae arsylwi yn allweddol er mwyn deall plant ifanc a chael gwybod mwy amdanynt fel unigolion.<br>• mae'n agwedd hanfodol ar y cylch asesu a chynllunio ac mae'n darparu sail gadarn ar gyfer myfyrio.<br>• mae'n helpu ymarferwyr a rhieni i ddiwallu anghenion datblygiad y plentyn ac i gydweithio er mwyn deall anghenion unigol plentyn a'u diwallu drwy ddysgu gan ei gilydd a rhannu gwybodaeth. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • mae arsylwi yn ymwneud â gwylio plant a sylwi ar eu gweithredoedd, eu hymddygiadau a'u rhyngweithiadau.<br>• rhaid arsylwi'n rheolaidd er mwyn gwybod beth mae plant yn ei ddysgu drwy eu profiadau chwarae a'u profiadau bywyd.<br>• drwy arsylwi ar yr hyn y mae plentyn yn dewis ei wneud a pha adnoddau y mae'n mwynhau chwarae â nhw, ceir gwybodaeth ddibynadwy amdanynt fel unigolion. Gall hefyd gynnig cyfle i bennu anghenion plentyn ac felly gynllunio'r camau nesaf yn ei ddysgu.<br><br>Mae arsylwadau yn hysbysu'r ymarferwr a'r lleoliad am y canlynol:<br>▪ yr hyn y mae plant yn ei fwynhau a'u diddordebau<br>• unrhyw gyfeillgarwch y gallent fod wedi'i ddatblygu<br>• nodi anghenion dysgu penodol<br>• llesiant y plentyn<br>• meysydd datblygu penodol – corfforol, deallusol, cymdeithasol, emosiynol<br><br>**Mae datblygiad Cari yn elwa o ddull gwybyddol Beth fel a ganlyn:**<br>• mae ymlyniad rhwng Cari a Beth fel ei gweithiwr allweddol sy'n helpu i roi sicrwydd iddi fod y person y mae'n dibynnu arno yno iddi<br>• fel gweithiwr allweddol Cari, mae Beth yn ymwybodol o'i hymddygiad, ei diddordebau a'i threfn ac yn nodi newidiadau yn ei hymddygiad yn gyflym<br>• mae Beth yn arsylwi ar Cari er mwyn nodi pam mae ei hymddygiad wedi newid a chynllunio'r camau nesaf yn ei dysgu<br>• mae Beth yn ymwybodol o gam datblygiad Cari gan ei bod wedi gweithio'n agos â Cari a'i theulu fel gweithiwr allweddol<br>• mae Beth yn meddu ar wybodaeth dda am ddamcaniaethau datblygiad plant a sut y gallant hybu datblygiad plant yn ymarferol<br>• mae Beth yn cynnal sesiynau arsylwi rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff dysgu a datblygiad Cari eu hybu ac y caiff ei hanghenion unigol eu diwallu<br>• mae gan Beth gynllun addysg unigol ar gyfer Cari lle mae'n cofnodi ei chynnydd a'i chyflawniadau ac unrhyw feysydd datblygu y mae angen sylw arnynt<br>• mae sesiynau arsylwi yn y lleoliad yn llywio'r gwaith cynllunio ar gyfer y plant er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hymestyn a'u herio ddigon ac i helpu'r plant i gyrraedd eu parth datblygiad procsimol (ZPD)<br>• mae Beth yn defnyddio ei dealltwriaeth o ddamcaniaethau Vygotsky i sgaffaldio dysgu Cari gan ddefnyddio gweithgareddau mwy heriol | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2">Cwestiwn</th><th>Ateb</th><th>AA1</th><th>AA2</th><th>AA3</th><th>Cyfanswm marciau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Mae'r plant eraill yn elwa o ddull gwybyddol Beth fel a ganlyn:<br>• mae Beth yn nodi y gall datblygiadau Cari helpu plant eraill yn y lleoliad drwy gynnal sesiwn tiwtor cyfoedion â Cari yn gweithredu fel yr unigolyn arall Mwy Gwybodus.<br>• mae sesiwn tiwtor cyfoedion yn helpu pob plentyn yn y lleoliad i gyrraedd ei barth datblygiad procsimol (ZPD)<br>• mae ymlyniad yn dylanwadu ar ddatblygiad cyffredinol uniongyrchol Cari a'i pherthnasoedd yn y dyfodol<br>• mae system gweithwyr allweddol ar waith yn y lleoliad sy'n helpu pob plentyn i deimlo'n gartrefol ac yn hapus ac yn fwy hyderus i archwilio ac o ganlyniad, ddod yn ddysgwr mwy galluog.<br><br>Ymhlith yr enghreifftiau mae:<br>• cydnabod lefel bresennol y dysgu a'r potensial o ran meysydd i'w datblygu<br>• sgaffaldio'r bylchau gan ddefnyddio cefnogaeth ddigonol ac effeithiol gan oedolion a chyfoedion<br>• ehangu a herio cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth<br>• canmol ac annog er mwyn datblygu dysgu pellach.<br><br>Mae Cari yn elwa ar ddull Beth mewn ffordd gyfannol drwy:<br>• yn gymdeithasol – ffurfio cyfeillgarwch newydd, cydweithredu ag eraill, rhannu<br>• yn emosiynol – hybu ei hunan-barch a'i hyder<br>• yn ddeallusol – cymryd cyfrifoldeb, dod yn fodel rôl i eraill, dysgu drwy addysgu ac ati<br><br>Dylid caniatáu cyfeiriadau at ddehongliad negyddol o fanteision ymddygiad a datblygiad Cari.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o bwrpas rôl gweithwyr allweddol<br>• dealltwriaeth hyderus o ddull y gweithiwr allweddol mewn lleoliad blynyddoedd cynnar | **9-10 marc**<br>Dadansoddiad ardderchog sy'n dangos:<br>• dehongliad craff a gwybodus o sut mae ymddygiad a datblygiad Cari yn elwa ar strategaethau Beth<br>• ymgysylltiad hyderus a manwl â'r strategaethau y bydd ymddygiad a datblygiad yn elwa arnynt<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o amrywiaeth eang o derminoleg. Mae’r gwaith ysgrifennu wedi’i strwythuro’n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o bwrpas rôl gweithwyr allweddol<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ddull y gweithiwr allweddol mewn lleoliad blynyddoedd cynnar | **6-8 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o sut mae ymddygiad a datblygiad Cari yn elwa ar strategaethau Beth<br>• ymgysylltiad trylwyr â'r strategaethau y bydd ymddygiad a datblygiad yn elwa arnynt<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o bwrpas rôl gweithwyr allweddol<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o ddull y gweithiwr allweddol mewn lleoliad blynyddoedd cynnar | **3-5 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o ddehongliad o sut mae ymddygiad a datblygiad Cari yn elwa ar strategaethau Beth<br>• ymgysylltiad syml â'r strategaethau y bydd ymddygiad a datblygiad yn elwa arnynt<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o bwrpas rôl gweithwyr allweddol<br>• dealltwriaeth brin o ddull y gweithiwr allweddol | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• tystiolaeth brin o ddehongliad o sut mae ymddygiad a datblygiad Cari yn elwa ar strategaethau Beth<br>• ymgysylltiad prin â'r strategaethau y bydd ymddygiad a/neu ddatblygiad yn elwa arnynt<br><br>Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau neu nid oedd ymgais i ymateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

**Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu**

**Uned 3**

| **Cwestiwn** | | | **Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)** | | | | **Dyraniad marciau** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adran | | | Rhan | Cyfanswm marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | | 2.3.1 | 2.3.2 | 2.3.3 | | | | | |
| **1** | (a) | | | | 6 | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | | (b) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (c) | | | | 8 | (b) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| **2** | (a) | | 6 | | | (b) | **6** | 0 | 0 | 6 |
| | (b) | | | 14 | | (b)/(ch) | **14** | 6 | 0 | 8 |
| Adran A | | | 12 | 14 | 14 | | **40** | **12** | **14** | **14** |
| **3** | (a) | | 6 | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | | (b) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (c) | | | 8 | | (b)/(ch) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **4** | (a) | | | 6 | | (b) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (b) | | 8 | | | (b) | **8** | 8 | 0 | 0 |
| | (c) | | | 8 | | (a)/(b) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **5** | | | | | 18 | (b) | **18** | 8 | 0 | 10 |
| Adran B | | | 20 | 22 | 18 | | **60** | **28** | **06** | **26** |
| Cyfanswm marciau | | | **32** | **36** | **32** | | **100** | **40** | **20** | **40** |



© WJEC CBAC Ltd.